



Gweledigaeth 2030

Gofal fferyllol diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach

Yn 2030 byddwn yn:

Rheoleiddiwr fferyllol annibynnol o ansawdd dda ar gyfer y cyhoedd

1. Rheoleiddio ymarfer fferyllol yn unol â chfres gyson o safonau ym mhob lleoliad.
2. Meddu ar ffocws clir ar ddiogelwch a deilliannau cleifion, yn gweithredu'n gyflym, yn gadarn ac yn deg.
3. Cael ein cydnabod am gyfrannu at yrru gwelliannau yn ansawdd ymarfer fferyllol yn eu blaen, drwy ein gwaith ein hunain a thrwy weithio'n effeithiol gydag eraill.

Dilyn ymagwedd ragweledol a chymesur tuag at reoleiddio

4. Defnyddio'r mewnwelediadau, gwybodaeth a thystiolaeth gorau sydd ar gael i lywio ein penderfyniadau ynghylch y camau gorau i'w rhoi ar waith.
5. Sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn arwain at weithwyr fferyllol proffesiynol hyblyg sy'n hyderus ac yn gallu gweithio ym mhob lleoliad gofal iechyd i ddiwallu anghenion amrywiol a newidiol cleifion.
6. Cyflwyno ymatebion rheoleiddiol wedi'u teilwra, yn seiliedig ar gyd-destun a natur y

materion a gyflwynir, i sicrhau deilliannau yn y ffordd orau a mwyaf cyflym.

7. Defnyddio cyfathrebu ac ymgysylltu yn rhagweithiol fel offeryn rheoleiddio grymus i rymuso defnyddwyr fferyllfeydd, cynyddu diogelwch cleifion a sbarduno gwelliannau mewn fferylliaeth ac yn y cymunedau y mae fferyllfeydd yn eu gwasanaethu.

Gweithredu fel sefydliad proffesiynol a darbodus

8. Byddwn yn gyflym i weithredu ac addasu i fodloni newidiadau o ran fferylliaeth ac anghenion y cyhoedd yn y dyfodol, gan gynnwys cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
9. Meddu ar weithlu arbenigol, dynamig, hyblyg sydd â sgiliau uchel ac sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd a'r proffesiwn.
10. Darparu gwasanaethau effeithlon mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio technoleg gyfoethocach i wella effeithlonrwydd a phrofiad cwsmeriaid.
11. Ariannol sefydlog a chynaliadwy, wedi'n hariannu'n deg gan y rhai rydyn ni'n eu rheoleiddio ac yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau bosibl.